OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 304 (Cy. 34)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn i Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ionawr 2015* |
| *Yn dod i rym* | *29 Ionawr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55 Llundain – Caergybi ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn i Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2015.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn a Chyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Dirymiadau**

3. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 1983(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Bangor, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1983(3) drwy hyn wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n berthnasol i'r

darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff iii) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1984**(4)** drwy hyn wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n berthnasol i'r darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau i) ac viii) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ionawr 2015

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a 2 gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddi, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 1983/1772
**(3)** O.S. 1983/1931
**(4)** O.S. 1984/172

## YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 400 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, hyd at bwynt 17 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 17 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd hyd at bwynt 2 fetr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Ffordd Bronwydd dros y gefnffordd.

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 65 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth am bellter o 395 metr tua'r gogledd-orllewin.

iv) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 460 metr i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy’n cario’r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth hyd at bwynt 17 metr i’r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy’n cario’r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

v) Y darn cyfan hwnnw o ffordd ymuno tua’r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.

vi) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua’r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8A, Cyfnewidfa Pont Britannia.

vii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua’r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 8A, Cyfnewidfa Pont Britannia.

viii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua’r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

ix) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua’r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

x) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua’r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.